Hawdd ei Ddeall

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

## Sut byddwn ni'n gwneud pethau'n decach o 2024 i 2028

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gomisiynydd y Gymraeg**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024–28**'.

**Ebrill 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch weld ystyr yr holl eiriau mewn glas ar **dudalen 30**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, bydd hyn yn golygu **Comisiynydd y Gymraeg**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan**: www.comisiynyddygymraeg.cymru

**E-bost**: post@comisiynyddygymraeg.cymru

**Ffôn**: 0345 6033 221

Mae **Hawdd ei Deall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**.

# Contents

**Amdanon ni** .... 4

**Y Gyfraith** .... 6

Y 9 nodwedd warchodedig .... 7

**Ein dyletswyddau cydraddoldeb** .... 8

Dyletswyddau eraill .... 10

**Ein gwerthoedd** .... 12

**Y ffordd y gwnaethon ni'r cynllun hwn** .... 14

**Ffeithiau a niferoedd ynglŷn â siaradwyr Cymraeg yng Nghymru** .... 17

**Ein nodau** .... 20

**Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud i gyrraedd ein nodau** .... 22

**Gwirio sut mae ein cynllun yn mynd yn ei flaen** .... 28

**Adrodd** .... 29

**Geiriau Anodd** .... 30

# Amdanon ni



Ni yw'r tîm sy'n gweithio gyda ac ar ran **Comisiynydd y Gymraeg**.




**Comisiynydd y Gymraeg** yw'r person sy'n sefyll dros yr iaith Gymraeg.




Ein prif nod yw helpu mwy o bobl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.




Rydyn ni'n gwneud hyn trwy ddweud wrth bobl bod yr iaith Gymraeg yn bwysig yng Nghymru.




Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod sefydliadau yn dilyn y rheolau ynglŷn â sut i ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Bydd hyn yn helpu siaradwyr Cymraeg i gael mwy o hawliau.

Y ddau brif syniad sy'n bwysig yn ein gwaith yw:




1. Ni ddylai'r iaith Gymraeg gael ei thrin yn waeth na'r iaith Saesneg yng Nghymru.




2. Dylai pobl yng Nghymru fedru defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu bywydau os ydyn nhw eisiau.

# Y Gyfraith




Mae'n rhaid i ni ddilyn **Deddf Cydraddoldeb 2010**, a **Dyletswydd Cydraddoldeb Cymru** a ddechreuodd yn 2011.



Mae **cydraddoldeb** yn golygu trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni feddwl sut i:



- Rwystro triniaeth annheg, bwlio a phethau drwg eraill sydd ddim yn cael ei ganiatáu gan y **Ddeddf Cydraddoldeb**.



- Helpu i gael **cydraddoldeb** rhwng pobl sydd â **nodweddion gwarchodedig** a phobl sydd heb **nodweddion gwarchodedig**.



- Helpu pobl sydd â **nodweddion gwarchodedig** a phobl sydd ddim yn dod ymlaen yn dda â phobl eraill.

# Y 9 nodwedd warchodedig



Mae rhai grwpiau o bobl yn cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:

1. Oed

2. Anabledd

3. Newid rhywedd

4. Priodas a phartneriaeth sifil

5. Disgwyl babi neu gael babi

6. Hil. Mae hyn yn cynnwys lliw croen, y wlad mae rhywun yn dod ohoni’n wreiddiol neu ei ddiwylliant.

7. Crefydd a chred

8. Rhyw

9. Cyfeiriadedd rhywiol.

# Ein dyletswyddau cydraddoldeb




I’n helpu i wneud pethau’n deg, mae pethau y mae’n rhaid i ni eu gwneud.




Mae’n rhaid i ni gael nodau Cydraddoldeb a’r **Cynllun** Cydraddoldeb **Strategol**.



Mae’n rhaid i ni ddweud wrth bobl sut mae’r cynllun yn mynd yn ei flaen bob blwyddyn ac edrych ar ein nodau o leiaf bob pedair blynedd.

Mae’n rhaid i ni:



- Gasglu ac ystyried gwybodaeth am **gydraddoldeb**.



- Edrych sut y mae ein dewisiadau a'n ffyrdd o wneud pethau yn effeithio ar **gydraddoldeb**.



- Siarad â phobl sydd â **nodweddion gwarchodedig**.



- Dysgu ein staff am **gydraddoldeb**.



- Meddwl am **gydraddoldeb** pan fyddwn ni'n prynu pethau.

# Dyletswyddau eraill

## Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol




Dechreuodd set newydd o reolau yng Nghymru yn 2021. Mae'n cael ei galw'n **Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol**.



Mae'r rheolau hyn yn helpu sefydliadau i feddwl am bobl sydd â llai o arian yng Nghymru. Yn aml y mae pobl sydd â llai o arian yn cael llai o gyfleoedd mewn bywyd.




Does dim rhaid i ni ddilyn y rheolau hyn, ond rydym eisiau defnyddio rhai o'r syniadau hyn yn ein nodau **cydraddoldeb** newydd.

## Cymru Gwrth-hiliol



Mae Llywodraeth Cymru yn dweud eu bod eisiau i Gymru fod yn wlad lle nad yw pobl yn trin pobl eraill yn wael oherwydd eu hil.

Mae ganddyn nhw gynllun i wneud hyn erbyn 2030. Byddwn yn helpu'r cynllun hwn trwy ein nodau.

## Cynllun Gweithredu LHDTC+ a Rhywedd




Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun i geisio gwneud pethau'n deg i bobl o bob **rhywedd**. Mae ganddyn nhw hefyd gynllun i wneud pethau'n deg i bobl **LHDTC+**. Byddwn yn helpu'r cynlluniau hyn trwy ein nodau.

Mae **rhywedd** yn golygu eich bod yn teimlo fel gwryw neu fenyw. Gall bobl deimlo eu bod yn un rhywedd, y ddau rywedd, neu'n ddim un ohonyn nhw.

Mae **LHDTC+** yn golygu Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Traws, Cwiar a grwpiau eraill. Mae'n ymwneud â rhywioldeb a phwy y mae pobl yn cael eu denu atyn nhw.

# Ein gwerthoedd




Mae arnon ni eisiau i Gymru fod yn le lle gall y gall pobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg.




Mae gennym ni brif gynllun ar gyfer 2022 i 2025. Mae gan y cynllun bedwar nod. Yn ystod tair blynedd y cynllun, rydyn ni'n edrych i weld a yw'r pethau rydyn ni'n eu gwneud yn cwrdd â'r nodau hyn.

**Y nodau yw:**



1. Gwneud pethau'n deg a chyfiawn ar gyfer siaradwyr Cymraeg.





2. Gwneud yn siŵr bod yr iaith Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn rheolau a deddfau.



3. Gwneud yn siŵr bod sefydliadau yn dilyn y rheolau ynglŷn â'r iaith Gymraeg.




4. Annog mwy o sefydliadau i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.





Byddwn yn gwneud prif gynllun newydd ar gyfer 2025 ac ar ôl hynny. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod y cynllun **cydraddoldeb** hwn yn rhan o'r prif gynllun newydd.

**Ein prif werthoedd sy'n arwain ein gwaith yw:**



- Rydyn ni'n parchu pawb ym mhopeth rydyn ni'n wneud.
- Rydyn ni'n agored ac yn ymddiried yn ein gilydd yn ein gwaith.
- Rydyn ni'n deg ac yn onest yn ein gwaith.
- Rydyn ni eisiau gweithio'n dda gyda phobl eraill.

# Y ffordd y gwnaethon ni'r cynllun hwn




Rydyn ni wedi defnyddio ein **Cynllun Cydraddoldeb** diwethaf ar gyfer 2020 i 2024 i wneud ein nodau newydd.

Ein hen nodau oedd:



- Cael mwy o staff **amrywiol** a rhoi tâl teg iddyn nhw.



Mae **amrywiol** yn golygu nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yng Nghymru:

- yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau
- â gwahanol alluoedd
- yn credu gwahanol bethau
- â gwahanol hunaniaethau rhywiol
- yn gwneud gwahanol ddewisiadau ynghylch y ffordd maen nhw'n byw eu bywydau
- o wahanol oed.



- Siarad â'r gymuned.



- Gwneud yn siŵr bod y pethau rydyn ni'n eu prynu yn helpu **cydraddoldeb**.




- Gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau yn cwrdd ag anghenion pobl.



Fe wnaethon ni'r nodau hynny gyda grwpiau eraill yng Nghymru. Mae hyn yn rhan o **Bartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru**. Rydyn ni'n dal i fod yn rhan o'r bartneriaeth.



Rydyn ni wedi cytuno i wneud nodau sy'n dilyn yr hen nodau ac yn gwella arnyn nhw.

Rydyn ni wedi gwneud hyn ar sail syniadau ehangach ac wedi gosod rhai nodau newydd tymor hir.

## Siarad â staff a'r cyhoedd



Fe gawson ni rai cyfarfodydd i edrych ar yr hen gynllun a phenderfynu pa syniadau i'w defnyddio yn ein cynllun newydd.



Fe ofynnon ni i'r cyhoedd hefyd beth roedden nhw'n feddwl o'r cynllun a'n nodau.

# Ffeithiau a niferoedd ynglŷn â siaradwyr Cymraeg yng Nghymru

**Mae'r rhain ar gyfer pobl sy'n dair oed neu'n hŷn. Mae'r wybodaeth yn dod o Gyfrifiad 2021.**




Mae dros 538 mil o bobl yng Nghymru yn siarad Cymraeg. Mae hynny tua 1 person allan o bob 5 person yng Nghymru.



Mae'r rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg wedi cael eu geni yng Nghymru.




Mae pobl o bob oed yn siarad Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf rhwng 20 a 44 mlwydd oed.



Mae mwy na 86 mil o siaradwyr Cymraeg yn bobl anabl.



Mae mwy na 161 mil o siaradwyr Cymraeg wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil.



Mae siaradwyr Cymraeg yn dod o bob grŵp ethnig. Mae'r rhan fwyaf yn Wyn neu'n dod o grwpiau cymysg.



O ran crefydd, mae'r rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn Gristnogion.



Mae ychydig mwy o fenywod nag o ddynion yn siarad Cymraeg.



Mae bron i 20 mil o siaradwyr Cymraeg yn wael eu hiechyd neu yn wael iawn.



Mae mwy na 46 mil o siaradwyr Cymraeg yn gwneud gofal di-dal bob wythnos.




O'r rhain, gwnaeth mwy na 13 mil o bobl 50 awr neu fwy o ofal bob wythnos.



Mae gan siaradwyr Cymraeg lawer o gefndiroedd a swyddi. Dydy rhai ddim yn ennill llawer o arian ac mae gan rai swyddi gyda thâl uchel.

Maen nhw'n fwy tebygol o gael swydd na phobl sydd ddim yn siarad Cymraeg.

# Ein nodau



Rydyn ni wedi gwneud ein nodau i gyd-fynd â phedair maes. Maen nhw ar gyfer pob **nodwedd warchodedig**.

## Nod 1. Ein tîm




Cyflogi staff sy'n siarad Cymraeg a Saesneg ac sydd fel pobl mewn cymdeithas. Rhoi cyflog teg a chyfartal iddynt.

## Nod 2. Cymuned



Siarad â phob math o bobl a gwneud pethau i helpu **cydraddoldeb** ac **amrywioldeb**.

## Nod 3. Y ffordd rydyn ni'n gweithio



Gwneud **cydraddoldeb**, **amrywiaeth**, a **chynhwysiant** yn bwysig yn ein gwaith.



Mae **cynhwysiant** yn golygu y gall pawb gymryd rhan, a bod pawb yn cael cyfle teg.

## Nod 4. Y pethau mae pobl eu hangen



Gwneud gweithgareddau y gall pawb gymryd rhan ynddyn nhw.

# Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud i gyrraedd ein nodau




## Nod 1. Ein tîm

Cyflogi staff sy'n siarad Cymraeg a Saesneg ac sydd fel pobl mewn cymdeithas. Rhoi tâl teg iddyn nhw.

**Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud:**



- Cael gwybodaeth **cydraddoldeb** am ein staff bob blwyddyn.



- Defnyddio'r pethau rydyn ni'n eu dysgu i wneud yn siŵr ein bod yn cyflogi gwahanol fathau o bobl.



- Gwirio bob blwyddyn ein bod yn talu pawb yn deg ac yn gyfartal, ni waeth pwy ydyn nhw.



- Gwneud y ffordd rydyn ni'n cyflogi pobl yn well ac yn ddiogel er mwyn cael staff mwy **amrywiol**. Gwneud yn siŵr nad ydyn ni'n gadael allan unrhyw grwpiau. Byddwn ni'n gwneud hyn yn 2024 a 2025.

## Nod 2. Cymuned



Siarad â phob math o bobl a gwneud pethau i helpu **cydraddoldeb** ac **amrywioldeb**.

**Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud:**




- Cael gwybodaeth **cydraddoldeb** am bobl sy'n siarad â ni, gan gynnwys pobl sy'n cwyno i ni. Byddwn ni'n gwneud hyn bob blwyddyn.



- Defnyddio'r pethau rydyn ni'n eu dysgu i ddod o hyd i bobl sydd ddim yn gwybod amdanon ni a pham nad ydyn nhw'n gwybod. Sôn wrthyn nhw am ein gwaith fel bo mwy o bobl sydd â **nodweddion gwarchodedig** yn dysgu amdanon ni.



- Gwneud yn siŵr ein bod bob amser yn siarad â phawb mewn ffordd dda. Defnyddio geiriau Cymraeg sy'n parchu bywydau a diwylliannau pobl.




- Gofyn i bobl beth maen nhw'n ei feddwl ac yn ei deimlo. Defnyddio'r pethau maen nhw'n ddweud i wneud ein cynllun nesaf yn well.




**Byddwn ni'n gwneud hyn yn 2024 a 2025.**

## Nod 3. Y ffordd rydyn ni'n gweithio



Gwneud **cydraddoldeb**, **amrywiaeth**, a **chynhwysiant** yn bwysig yn ein gwaith.


**Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud:**



- Cychwyn grŵp staff i wneud i'r cynllun hwn ddigwydd a gwneud mwy o waith.



- Newid y ffordd rydyn ni'n prynu pethau i helpu **cydraddoldeb** tra'n dilyn y gyfraith.



- Gwella'r ffordd rydyn ni'n ystyried ac yn mesur **cydraddoldeb**. Meddwl am bobl sydd gyda llai o arian a llai o gyfleoedd wrth wneud dewisiadau mawr.



- Dysgu rheolwyr sut i edrych ar gydraddoldeb wrth benderfynu pethau.




**Byddwn ni'n gwneud y pedwar peth hyn yn 2024 a 2025.**



- Dysgu pob aelod o staff am gydraddoldeb. Byddwn ni'n gwneud hyn bob blwyddyn.

## Nod 4. Y pethau sydd ar bobl eu hangen



Gwneud gweithgareddau y gall pawb gymryd rhan ynddyn nhw.

**Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud:**




- Gwneud ein gwefan yn hawdd ei defnyddio a dilyn rheolau **hygyrchedd** y we. Edrych yn fanwl arni bob blwyddyn a newid y **datganiad hygyrchedd** pan fydd angen.




Mae **hygyrchedd** yn golygu y gall pobl ddod o hyd i rywbeth a'i ddefnyddio yn hawdd, beth bynnag yw eu hanghenion.




- Dod o hyd i ffyrdd newydd o rannu ein gwaith, fel papurau lleol a chylchlythyrau.




**Byddwn ni'n gwneud hyn yn 2024 a 2025.**




- Ysgrifennu mewn ffordd glir bob amser. Gwneud fersiynau Hawdd eu Deall o ddogfennau pwysig, fel y cynllun hwn.




- Newid pethau i siwtio gwahanol bobl pan fydd angen, fel gwneud adroddiadau yn Hawdd eu Deall neu mewn Braille pan fyddan nhw'n gofyn i ni.

# Gwirio sut mae ein cynllun yn mynd yn ei flaen




- Byddwn ni'n cadw golwg i weld pa mor dda rydyn ni'n gwneud pethau. Bydd ein grŵp o staff yn cyfarfod bob tri mis ac yn ysgrifennu adroddiad ar y cynllun.




- Bydd yr adroddiadau y bydd ein staff yn eu hysgrifennu ar gyfer rheolwyr bob tri mis yn cynnwys y ffordd y mae'r cynllun **cydraddoldeb** hwn yn symud ymlaen.




- Byddwn yn edrych ar y cynllun hwn yn 2027 a 28 ac yn gwneud Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd erbyn 31 Mawrth 2028.

# Adrodd




Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y cynllun hwn ar ein gwefan. [www.comisiynyddygymraeg.cymru](http://www.comisiynyddygymraeg.cymru)




Gallwch ofyn am ffyrdd eraill o'i ddarllen. Mae ein cyfeiriad e-bost a'n rhif ffôn ar **dudalen 2** o'r llyfryn hwn.




Byddwn ni'n dweud bob blwyddyn pa mor dda rydyn ni'n ei wneud gyda'n nodau cydraddoldeb yn ein Adroddiad Blynyddol ar ein gwefan. [www.comisiynyddygymraeg.cymru/amdanom-ni/amcanion-strategol-a-n-gweledigaeth/adroddiad-blynyddol-2022-23](http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/amdanom-ni/amcanion-strategol-a-n-gweledigaeth/adroddiad-blynyddol-2022-23)

# Geiriau Anodd

## Amrywiol ac Amrywiaeth

Mae amrywiol yn golygu nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yng Nghymru:

- yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau
- â gwahanol alluoedd
- yn credu gwahanol bethau
- â gwahanol huaniaethau rhywiol
- yn gwneud gwahanol ddewisiadau am y ffordd maen nhw'n byw eu bywydau
- o wahanol oed.

## Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn golygu trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

## Cynhwysiant

Mae cynhwysiant yn golygu y gall pawb gymryd rhan, a bod pawb yn cael cyfle teg.

## Hygyrchedd

Mae hygyrchedd yn golygu y gall pobl ddod o hyd i rywbeth yn hawdd a'i ddefnyddio, beth bynnag yw eu hanghenion.

## LHDTC+

Mae hyn yn golygu Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Traws, Cwiar a grwpiau eraill. Mae'n ymwneud â rhywioldeb a phwy y mae pobl yn cael eu denu atyn nhw.

## Nodweddion gwarchodig

Mae rhai grwpiau o bobl yn cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:

- Oed
- Anabledd
- Newid rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Disgwyl babi neu gael babi
- Hil. Mae hyn yn cynnwys lliw croen, y wlad mae rhywun yn dod ohoni'n wreiddiol neu ei ddiwylliant.
- Crefydd a chred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

## Rhywedd

Mae rhywedd yn golygu eich bod yn teimlo fel gwryw neu fenyw. Gall bobl deimlo eu bod yn un rhywedd, y ddau rywedd, neu'n ddim un ohonyn nhw.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**Gwefan:** www.comisiynyddygymraeg.cymru

**E-bost:** post@comisiynyddygymraeg.cymru

**Ffôn:** 0345 6033 221